Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil cymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 14/2015

# Gwerthusiad o gynllun effeithiolrwydd ynni Nyth - Crynodeb Gweithredol

## Gwerthusiad o gynllun effeithiolrwydd ynni Nyth


## Miller Research (UK) Ltd
Katy Marrin
Mair Smith
Heulwen Hudson
Nick Miller

## Brook Lyndhurst Ltd
Jonathan Bain
Tim Knight


Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid rhai Llywodraeth Cymru


Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Kate Smith

Cangen Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3257

E-bost: kate.smith@wales.gsi.gov.uk



Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 10 Mawrth 2015

ISBN 978-1-4734-3166-9



© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Crynodeb Gweithredol

i. Nyth yw’r cynllun a arweinir gan alw Llywodraeth Cymru a luniwyd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynnig pecyn o fesurau gwella ynni yn y cartref yn rhad ac am ddim i gartrefi sy'n derbyn budd-dal prawf modd ac sy'n byw mewn cartref aneffeithlon iawn o ran ynni, gyda graddfa SAP o F neu G. Mae Nyth hefyd yn darparu cyngor ar arbed ynni, rheoli arian, tariffau tanwydd, gwiriadau hawl i fudd-dal ac atgyfeirio i gynlluniau amgen i holl ddeiliaid cartrefi yng Nghymru

ii. Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun yn 2014 er mwyn asesu os oedd y cynllun wedi cyflawni ei amcanion ai peidio, ac i asesu i ba raddau mae'r cynllun wedi cyrraedd cartrefi sydd â’r angen mwyaf, ac a oedd wedi arwain at arbedion ynni i ddeiliaid tai ac wedi rhoi gwerth am arian. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad trwy gyfweliadau ansoddol gyda rhai sy'n ymwneud â rheoli, cyflawni ac yn elwa ar y cynllun, a drwy ddau arolwg meintiol ar raddfa eang o'r rhai sy'n elwa ar Nyth a chyngor trydydd parti a phecynnau gwella cartrefi. Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol o fis Mehefin tan fis Hydref 2014 a chynhaliwyd y gwaith ymchwil meintiol ym mis Medi 2014.

### Rheolaeth y cynllun a phrofiad y cwsmer

iii. Yn gyffredinol canmolwyd rheolaeth a llywodraethu’r cynllun gan bawb sy'n gysylltiedig, ac maent yn cael eu cydnabod fel rhai o gryfderau'r cynllun. Mae'r cyfweliadau ansoddol gyda buddiolwyr a data monitro’r cynllun yn dangos lefel isel o gwynion a lefelau uchel o fodlonrwydd gan y cwsmeriaid. Fe wnaeth cyfweliadau gyda buddiolwyr a thrydydd parti dynnu sylw at rai pryderon nad oedd y broses ymgeisio yn gyson hygyrch i grwpiau penodol (fel y rhai ag anawsterau golwg a chlyw, neu broblemau iechyd meddwl). Awgrymwyd hefyd y gellid gwella marchnata a thargedu grwpiau sydd wedi'u hallgau’n gymdeithasol yn benodol.

**Wnaeth y cynllun gyrraedd y cartrefi oedd fwyaf agored i niwed?**

iv. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod y teuluoedd sydd wedi derbyn gwelliannau i'r cartref drwy Nyth mewn angen mawr am gymorth ac ni allent fod wedi cyrchu cymorth yn rhywle arall. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus o ran cyrraedd pobl hŷn a'r rhai oedd â salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio, mae data monitro'r cynllun yn gwrthddweud y canfyddiadau fod targedu tai gwledig wedi gwella yn ystod y cynllun.

v. Mae'r data meintiol yn dangos ymhellach fod llawer o'r rhai nad oeddynt yn gymwys ar gyfer gwelliannau cartref wedi eu gorfodi i wneud dewisiadau tebyg am wresogi i'r rhai y barnwyd eu bod yn gymwys. Er bod y cynllun wedi cyrraedd rhai aelwydydd mewn angen, mae risg fod eraill sydd mewn llawn cymaint o angen, wedi methu cael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt am eu bod yn methu â bodloni'r holl feini prawf cymhwyso.

vi. O gael nifer o awgrymiadau am newidiadau i'r meini prawf cymhwyso, ystyriwyd goblygiadau pob diwygiad posibl. Er y byddai ehangu pob maen prawf yn ddymunol, yng nghyd-destun cyllid cyfyngedig, byddai gan bob un o'r oblygiadau gwahanol o ran gwerth am arian, gan gynnwys nifer o fesurau y gellid eu rhoi ar waith a nifer yr aelwydydd yr oedd modd eu cefnogi.

**Wnaeth y cynllun wireddu manteision i ddeiliad y cartref?**

vii. Dywedodd ychydig dros hanner y rhai a holwyd oedd wedi derbyn cyngor gan Nyth eu bod yn gallu gwresogi eu cartref yn well, tra roedd hyn yn sylweddol uwch (89 y cant) ar gyfer y rhai a dderbyniodd osodiad. Effeithiau mwyaf ystyrlon, a'r rhai a fynegwyd amlaf am y cynllun, oedd eu bod wedi cael mwy o hyder a llai o bryder am wresogi eu cartrefi o ganlyniad i'r mesurau a'r cyngor a dderbyniasant. I rai cartrefi fe wnaeth hyn ymestyn i welliannau iechyd. Er i rai ddweud eu bod wedi elwa o arbedion ynni, mae systemau newydd a mwy o effeithlonrwydd wedi galluogi eraill i ddefnyddio gwres a dŵr poeth pan na allent o'r blaen.

**Oedd y cynllun yn rhoi gwerth am arian i Lywodraeth Cymru?**

**viii.** Yn seiliedig ar ddata monitro'r cynllun, gallwn gyfrifo'r arbediad cyffredinol sy'n cronni i gartrefi sydd wedi elwa dros gyfnod y cynllun hyd yn hyn, yn gyfanswm o £7.48m. O ystyried buddsoddiad cyffredinol o £58,023,822, mae hyn yn cyfateb i gymhareb budd i gost o 1.29, sy'n golygu bod economi Cymru yn cyflawni adenillion o £1.29 yn ôl am bob £1 a wariwyd. Fel arall, gallai hyn gael ei weld fel un cyfnod ad-dalu o 7.75 y flwyddyn, neu gyfradd flynyddol o ddychweliad o 12.9 y cant. Cafodd manteision economaidd ychwanegol eu hysgogi drwy gyfeirio pobl at drydydd parti ar gyfer gwiriadau budd-daliadau a chynlluniau eraill, a chontractio trefniadau cyflenwi i asiantaethau yng Nghymru.

**Canfyddiadau Allweddol**

Mae Nyth wedi:

- **ei ariannu hyd at werth o tua £58m** rhwng Ebrill 2011 a Medi 2014;
- **darparu cyngor a chymorth i dros 61,000 o gartrefi** i'w helpu i wresogi eu cartrefi yn fwy fforddiadwy;
- **cyfeirio neu arwyddo dros 20,000 o gartrefi** i drydydd parti ar gyfer amrywiaeth o ddibenion, ee cyngor am arian a dyledion, asesu cymhwysedd ar gyfer Disgownt Cartrefi Gaeaf neu'r Fargen Werdd;
- **darparu dros 15,000 o gartrefi gyda phecyn o fesurau gwella ynni cartref am ddim**, gan gynyddu cyfradd SAP o 94% o eiddo gyda sgôr E neu uwch (lle cynt roeddynt yn F/G);
- **ysgogi £4.2 miliwn ychwanegol o gyllid rhwymedigaeth cwmni ynni (ECO)** i Gymru;
- **targedu'n llwyddiannus rhai sydd mewn tlodi tanwydd** (cofnodwyd yn gyson dros 80% o'r rhai oedd yn holi a ddarparodd ddata at ddibenion monitro fel rhai oedd mewn tlodi tanwydd);
- **darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid** (roedd arolwg o fuddiolwyr oedd wedi derbyn gosodiad yn dangos fod 93% yn fodlon ar eu profiad cyffredinol o'r broses);
- **arwain at amrywiaeth o ganlyniadau trwy ddarparu cyngor** (fe wnaeth 59 y cant o'r rhai a holwyd oedd wedi derbyn cyngor ddweud eu bod wedi gweithredu arno, gan gynnwys gosod rheolyddion gwresogi newydd, inswleiddio ac uwchraddio eu bwyleri yn ogystal â newid eu hymddygiad er mwyn gwresogi eu cartref yn fwy effeithlon a gostwng eu biliau);
- **mwy o hyder mewn gwresogi cartrefi a llai o bryder am hynny** (dywedodd 89% o'r rhai a dderbyniodd osodiad eu bod yn gallu gwresogi eu cartref yn well);
- **cefnogi 46 BBaCh**, **gan greu cyfanswm o 83 o brentisiaethau, gweithwyr**

**dan hyfforddiant a swyddi** dros gyfnod y cynllun;
- **cronni arbedion ynni blynyddol o £7.48m i gyd** dros gyfnod y cynllun.

Meysydd i wella:

- nid ydy'r broses o wneud cais ar gael yn gyson i rai grwpiau, fel pobl sydd â phroblemau gada'u golwg a chlyw, anableddau neu â phroblemau iechyd meddwl;
- tra bod y cynllun wedi cyrraedd rhai cartrefi mewn angen, mae yna risg bod eraill sydd hefyd mewn angen ddim wedi cael y cymorth meant eu hangen gan eu bod ddim wedi cyrraedd y meini prawf;
- tra bod yna glod a chefnogaeth gan trigolion am amcanion y cynllun o weithredu gan ganolbwyntio ar y 'tŷ cyfan', dim ond un gwelliant mae mwyafrif o dai wedi eu derbyn;
- mae'r ddarpariaeth o gyngor ar ei ben ei hun wedi bod yn llai effeithiol na'r gwelliannau ynglŷn â thlodi tanwydd;
- gall marchnata'r cynllun i grwpiau sydd wedi cael eu hallgau'n gymdeithasol fod yn well.